# Comisiwn y Cynulliad

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Gynhadledd 4B – Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 3 Tachwedd 2016** |
| Amser: | **15.00 – 16.50** |

## Cofnodion: AC(5)2016(5)

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Comisiwn: | **Elin Jones AC (Cadeirydd)**<br>**Suzy Davies AC**<br>**Caroline Jones AC**<br>**Adam Price AC**<br>**Joyce Watson AC** |
| Swyddogion yn bresennol: | **Claire Clancy, Prif Weithredwr a Chlerc**<br>**Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad**<br>**Dave Tosh, Cyfarwyddwr Adnoddau**<br>**Non Gwilym, Head of Communications**<br>**Gwion Evans, Head of Presiding Officer's Private Office**<br>**Sulafa Thomas, Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth i'r Comisiwn ac i'r Aelodau** |
| Eraill yn bresennol: | |

## 1 Cyflwyniad

1.1 Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

1.2 Datganiad o fuddiant

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant.

1.3 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Medi.

## 2 Capasiti Ystâd y Cynulliad yn y dyfodol

Trafododd y Comisiynwyr faterion sy'n gysylltiedig â chapasiti ystâd y Cynulliad yn y tymor byr a'r tymor hwy. Maent yn cefnogi'r gwaith i wella darpariaeth o ran ystafelloedd pwyllgora a chytunwyd y dylid trafod yr opsiynau i alluogi penderfyniadau yn y dyfodol.

## 3 Adroddiad Comisiwn y Pedwerydd Cynulliad "Dyfodol y Cynulliad: sicrhau capasiti i gyflawni ar gyfer Cymru" a Bil Cymru

Cafodd y Comisiynwyr eu briffio ynghylch gwaith y Comisiwn yn y Cynulliad diwethaf o ran y cyfyngiadau ar gapasiti'r sefydliad a'r casgliadau y daethpwyd iddynt. Hefyd, fe'u hysbyswyd am y sefyllfa bresennol ac am hyd a lled y pwerau sy'n cael eu datganoli o dan Fil Cymru sydd ar hyn o bryd yn cael ei drafod yn San Steffan.

Cytunodd y Comisiynwyr y dylai'r Llywydd drafod y materion hyn ymhellach o ran ceisio eu symud ymlaen.

## 4 Ymgysylltu â'r cyhoedd - Senedd Ieuenctid a gwybodaeth ddigidol

Cafodd y Comisiynwyr y wybodaeth ddiweddaraf am gynigion i sefydlu senedd ieuenctid newydd i Gymru a datblygu Tasglu Newyddion a Gwybodaeth Ddigidol. Mae’r ddwy fenter allweddol hyn ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd yn rhan o strategaeth y Comisiwn.

Cytunodd y Comisiynwyr i ddatblygu cynlluniau ar gyfer senedd ieuenctid ac ymgynghori arnynt yn gynnar yn 2017, gyda'r bwriad o ganfod ein seneddwyr ifanc cyntaf yn ail hanner y flwyddyn a chynnal cyfarfod cyntaf y senedd ieuenctid yn

2018. Yn benodol, yn y datblygiad hwn, roeddent yn awyddus y dylid ystyried yn benodol sut i gyrraedd y bobl nad ydynt fel arfer yn ymateb i ymgynghoriadau.

Trafododd y Comisiynwyr y cynlluniau ar gyfer y tasglu newyddion a gwybodaeth ddigidol, a chafwyd cefnogaeth ar gyfer y gwaith y bydd yn ei wneud er mwyn gwneud argymhellion ar gyfer y dyfodol.

Bydd rhagor o wybodaeth ynglŷn â'r ddwy fenter yn rhan o'r drafodaeth ehangach am strategaeth ddrafft Comisiwn y Cynulliad ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd ddechrau'r flwyddyn newydd.

## 5 Cyllideb Comisiwn y Cynulliad 2017-18 - ymateb i waith craffu ac adroddiad y Pwyllgor Cyllid

Cafodd y Comisiwn wybodaeth am hynt proses cyllideb y Comisiwn, gan gynnwys gwaith craffu gan y Pwyllgor Cyllid. Croesawodd y Comisiynwyr ddull adeiladol y Pwyllgor Cyllid a'r ffaith i'r Pwyllgor gydnabod yr ansicrwydd ynghylch lefelau ariannu ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

Cytunodd y Comisiwn ar ei ymateb i argymhellion y Pwyllgor Cyllid a nododd y ffaith y caiff dogfen y gyllideb derfynol ei gosod ar 9 Tachwedd 2016.

## 6 Unrhyw fater arall

Trafododd y Comisiynwyr rai materion amserol.